OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 900 (Cy.93)

ANIFEILIAID, CYMRU

Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2010

Gwnaed - - - -	*22 Mawrth 2010*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 1, 7, 8 a 83(2) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2010. Mae'n gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 1 Ebrill 2010.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "anifeiliaid" ("*animals*") yw gwartheg (ond heb gynnwys buail ac iacod), ceirw, geifr, defaid a moch;

ystyr "crynhoad anifeiliaid" ("*animal gathering*") yw achlysur pan gaiff anifeiliaid eu crynhoi ynghyd at un neu fwy o'r dibenion canlynol—

(a) gwerthiant, sioe neu arddangosfa;

(b) casglu i draddodi llwyth o anifeiliaid ymlaen o fewn Prydain Fawr;

(c) arolygiad i gadarnhau bod gan yr anifeiliaid nodweddion brid penodol;

mae "cyfarpar" ("*equipment*") yn cynnwys llociau a chlwydi;

ystyr "diheintydd a gymeradwywyd" ("*approved disinfectant*") yw diheintydd a gymeradwywyd o dan Orchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Cymru) 2007(**2**);

ystyr "mangre drwyddedig" ("*licensed premises*") yw mangre a drwyddedwyd o dan erthygl 5(1);

(**1**) 1981 p.22. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**2**) O.S. 2007/2803 (Cy.236).

ystyr "man i anifeiliaid" ("*animal area*") yw unrhyw fan ar y fangre drwyddedig y caniateir i'r anifeiliaid fynd iddo mewn crynhoad anifeiliaid;

ystyr "palmantog" ("*paved*") yw wedi ei balmantu â sment, concrit, asffalt neu ddeunydd anhydrin caled arall y gellir ei lanhau a'i ddiheintio'n effeithiol;

mae "trwyddedai" ("*licensee*") yn berson a drwyddedwyd o dan erthygl 5(1).

Hysbysiadau a thrwyddedau

3. O ran unrhyw hysbysiadau, trwyddedau neu awdurdodiadau a ddyroddir gan arolygydd milfeddygol o dan y Gorchymyn hwn—

(a) rhaid iddynt fod mewn ysgrifen;

(b) caniateir iddynt gael eu diwygio, eu hatal dros dro neu eu dirymu; ac

(c) cânt fod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau a gofynion sydd ym marn yr arolygydd milfeddygol yn angenrheidiol i atal clefyd rhag cael ei gyflwyno i'r fangre drwyddedig neu i gael ei ledaenu o fewn y fangre honno neu ohoni.

Eithriadau

4. Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys yn unrhyw un o'r sefyllfaoedd canlynol—

(a) os yr un person sy'n berchen ar yr holl anifeiliaid y daethpwyd â hwy i'r crynhoad anifeiliaid;

(b) os yw'r holl anifeiliaid yn dod o un set o fangreoedd y mae Gweinidogion Cymru wedi ei hawdurdodi fel grŵp meddiannaeth unigol o dan Orchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003(**3**); neu

(c) os yw'r crynhoad anifeiliaid yn cael ei gynnal ar fangre y mae perchennog yr anifeiliaid yn berchen arni neu'n ei meddiannu.

Defnyddio mangreoedd ar gyfer crynoadau anifeiliaid

5.—(1) Ni chaiff neb ddefnyddio unrhyw fangre ar gyfer crynhoad anifeiliaid oni bai bod y fangre honno wedi ei thrwyddedu i'r perwyl hwnnw gan arolygydd milfeddygol.

(2) Rhaid i gais am drwydded fod mewn ysgrifen.

(3) Rhaid i drwydded gynnwys—

(a) enw'r trwyddedai;

(b) y fangre lle y caniateir crynhoad anifeiliaid; ac

(c) manylion sy'n dynodi'r man i anifeiliaid.

Cyfyngiad am 27 o ddiwrnodau rhwng crynoadau anifeiliaid

6. Ni chaiff neb ganiatáu i grynhoad anifeiliaid gael ei gynnal ar fangre drwyddedig lle y mae anifeiliaid wedi cael eu cadw hyd nes y bydd 27 o ddiwrnodau wedi mynd heibio er y diwrnod—

(a) y gadawodd yr anifail olaf y fangre drwyddedig; a

(b) y cafodd yr holl gyfarpar yr oedd modd i'r anifeiliaid fynd ato ei lanhau o unrhyw halogiad gweladwy, wedi i'r anifail olaf adael y fangre drwyddedig.

(**3**) O.S. 2003/1966 (Cy.211) (fel y'i diwygiwyd).

Esemptiad rhag y cyfyngiad o 27 o ddiwrnodau ar gyfer mangre drwyddedig sydd â man palmantog i anifeiliaid

7.—(1) Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 6 yn gymwys pan fo'r holl fannau i anifeiliaid ar y fangre drwyddedig wedi eu palmantu, a bod y mannau hynny (ac unrhyw gyfarpar sydd arnynt) wedi eu crafu'n lân, eu hysgubo, eu glanhau drwy olchi ac yna eu diheintio â diheintydd a gymeradwywyd cyn y crynhoad anifeiliaid nesaf.

(2) O ran y gwaith crafu, ysgubo, glanhau a diheintio sy'n ofynnol ym mharagraff (1)—

(a) dim ond pan fo'r anifeiliaid wedi gadael y man sydd i'w drin felly y caniateir i'r gwaith hwnnw ddechrau; a

(b) rhaid ei orffen ar ôl i'r anifail olaf adael y fangre drwyddedig.

(3) Caiff arolygydd milfeddygol ddyroddi awdurdodiad i drwyddedai gynnal crynhoad anifeiliaid sy'n esempt rhag y cyfyngiad yn erthygl 6 yn ddarostyngedig i ofynion sy'n wahanol i'r rhai sydd wedi eu cynnwys ym mharagraffau (1) a (2).

(4) Os, ar ôl y tro diwethaf y cafodd unrhyw fan palmantog i anifeiliaid ei drin yn unol â'r erthygl hon, caiff unrhyw ran o'r man hwnnw ei ailhalogi â thom anifeiliaid neu ddeunydd arall sy'n dod o anifeiliaid neu unrhyw halogyn sy'n tarddu o anifeiliaid, yna rhaid i'r rhan ailhalogedig honno gael ei chrafu'n lân, ei hysgubo, ei glanhau drwy olchi ac wedyn ei diheintio cyn caniatáu i unrhyw anifeiliaid gael mynd i'r fangre drwyddedig ar gyfer y crynhoad anifeiliaid nesaf.

Distrywio, trin neu waredu bwydydd anifeiliaid a deunyddiau eraill

8.—(1) Rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod yr holl fwydydd anifeiliaid yr oedd modd i'r anifeiliaid fynd atynt, a'r holl sarn, y dom, y deunydd arall sy'n dod o anifeiliaid a'r halogion eraill sy'n tarddu o anifeiliaid sydd yn y man i anifeiliaid—

(a) yn cael eu distrywio;

(b) yn cael eu trin er mwyn dileu'r risg o drosglwyddo clefyd; neu

(c) yn cael eu gwaredu i sicrhau na fydd modd i anifeiliaid fynd atynt.

(2) Nid yw'r erthygl hon yn gymwys i unrhyw ddeunydd y mae'n ofynnol ei waredu o dan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006(**4**).

Caniatáu i anifeiliaid gael mynediad am gyfnod o hyd at 48 awr yn unig

9.—(1) Ni chaiff neb ddod ag unrhyw anifail, na chaniatáu i unrhyw anifail fynd, i mewn i fangre a ddefnyddir ar gyfer crynhoad anifeiliaid ar ôl i'r crynhoad fod yn agored i dderbyn anifeiliaid am gyfnod o 48 awr.

(2) Caiff arolygydd milfeddygol estyn drwy hysbysiad y cyfnod pryd y caniateir i anifeiliaid fynd i mewn i grynhoad anifeiliaid.

(3) At ddiben yr erthygl hon, pan fo mwy nag un crynhoad anifeiliaid yn cael ei gynnal ar yr un fangre drwyddedig a bod anifeiliaid yn bresennol ar bob adeg ar y fangre honno yn ystod y cyfryw grynoadau, mae'r crynoadau hynny i'w trin fel un crynhoad anifeiliaid, a bydd y cyfnod o 48 awr i'r fangre fod yn agored i dderbyn anifeiliaid yn gymwys i'r crynhoad hwnnw.

(**4**) O.S. 2006/1293 (Cy.127).